



## Cyfarfod Cyngor Tref Tregaron Town Council Meeting – 15.02.2021

7.00yh/pm – ar lein trwy Zoom / Online through Zoom

### COFNODION MIS CHWEFROR / FEBRUARY MEETING MINUTES

	Eitem / Item	Gweithred / Action
1.	<p><b>CROESO / WELCOME</b></p> <p>Croesawodd y Cadeirydd pawb i gyfarfod misol y Cyngor ac I David Owen, Cyngor Sir Ceredigion oedd wedi ymuno a ni I wneud cyflwyniad am prosiect digidol newydd yn y Sir.</p> <p><i>The Chairman welcomed all members present, to the monthly meeting and to David Owen, Ceredigion County Council who had joined to do a presentation on a new digital project in the county.</i></p> <p>PRESENNOL / PRESENT: Cyng/Cllr Arwel Jones (Cadeirydd/Chair), Cyng/Cllr Catherine Hughes, Gwilym Jenkins, Rhian Jones, Ann Jones, Rhydian Wilson, Owain Pugh.</p> <p>Clerc / Clerk – Fflur Lawlor</p>	
2.	<p><b>CYFLWYNIAD GAN / PRESENTATION BY DAVID OWEN, CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL</b></p> <p>Mae David Owen yn gweithio fel Swyddog Datblygu Digidol i Gyngor Sir Ceredigion ac mae'n gyfrifol am ddatblygu seilwaith digidol yn y sir. Mae'n gweithio ar brosiect o'r enw Dadansoddiad Canol y Dref. Nodau'r prosiect yw -</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Monitro ymddygiad ymwelwyr</li><li>• Marchnata ar gyfer busnesau lleol</li><li>• Gwella profiad ymwelwyr</li><li>• Casglu data</li></ul> <p>Gobaith y prosiect yw gallu gosod pwyntiau Wifi ledled y dref lle bydd modd casglu data fel nifer o ymwelwyr â'r dref, yr amser a dreulion nhw yn y dref, pa amser o'r dydd maen nhw'n ymweld ag ati. Ni fydd unrhyw ddata personol yn cael ei casglu oni bai bod pobl yn cofrestru i'r Wifi lle gofynnir am enw a chyfeiriad e-bost.</p>	

	<p>Mae Cyngor Sir Ceredigion yn edrych ar osod y rhain yn nhrefi'r Sir i gasglu gwybodaeth, gwella effeithlonrwydd, helpu busnesau a helpu i gefnogi'r economi leol. Maent yn y broses o gael cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y prosiect.</p> <p>Roedd yr holl Gynghorwyr yn gytun i Dregaron fod yn rhan o'r prosiect a chaniatáu i bwyntiau Wifi gael eu gosod yn y dref.</p> <p><i>David Owen works as a Digital Development Officer for Ceredigion County Council and is responsible to develop a digital infrastructure in the county. He is working on a project called Town Centre Analysis. The aims of the project is -</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Monitor visitor behaviour</i></li> <li>• <i>Marketing for local businesses</i></li> <li>• <i>Improve visitor experience</i></li> <li>• <i>Data collection</i></li> </ul> <p><i>The project hopes to be able to install Wifi points throughout the town where data will be able to be collected such as number of visitors to the town, time they spent in the town, what time of day they visit etc. No personal data will be gathered unless people sign up to the Wifi where name and email address will be asked for.</i></p> <p><i>Ceredigion County Council are looking into installing these in the County's town to gather information, improve efficiency, helps businesses and help support the local economy. They are in the process of getting funding from Welsh Government for the project.</i></p> <p><i>All Councillors were in agreement that Tregaron is to be part of the project and allow Wifi points to be installed in the town.</i></p>	
3.	<p><b>YMDDIHEURIADAU / APOLOGIES</b>  Cyng/Cllr Evan Jones  Cyng/Cllr Laura Sherman</p>	
4.	<p><b>MATERION PERSONOL / PERSONAL MATTERS</b>  Nid oedd dim materion personol.</p> <p><i>There were no personal matters.</i></p>	Clerc / Clerk
5.	<p><b>ADRODDIAD YR HEDDLU / POLICE REPORT</b>  Hysbysodd PC John Evans y cyfarfod nid oedd unrhyw achos newydd wedi cael ei adrodd i'r Heddlu rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2021.</p> <p>Dywedodd PC Evans wrth y cyfarfod fod nifer o wahanol alwadau sgam yn digwydd ar hyn o bryd, fel HRMC / brechlyn COVID-19 / DPD / Post Brenhinol - mae'r henoed a'r pobl mwyaf bregus yn cael eu targedu. Hefyd mae dwyn cŵn ar gynnydd felly os gwelwch unrhyw beth amheus i roi gwybod i'r Heddlu amdano.</p>	

	<p><i>PC John Evans informed the meeting that no new cases had been reported to the Police between January and February 2021.</i></p> <p><i>He also informed the meeting that there was a number of different scam calls currently happening, such as HRMC / COVID-19 vaccine / DPD / Royal Mail - the elderly and most vulnerable are being targeted. Also dog theft is on the rise so if you see anything suspicious to report it to the Police.</i></p>	
6.	<p><b>DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL / DECLARATION OF PERSONAL INTEREST</b></p> <p>Cyng. Catherine Hughes yn datgan diddordeb yn y pwnc Cynllunio.</p> <p>Cyng. Catherine Hughes ac Ann Jones yn datgan diddordeb yn drafodaeth y llythyr a derbynnir gan Ganolfan Teulu Tregaron.</p> <p><i>Cllr Catherine Hughes declaring an interest in the subject of Planning.</i></p> <p><i>Cllr Catherine Hughes and Ann Jones declaring an interest in the discussion of the letter received from Tregaron Family Centre.</i></p>	
7.	<p><b>CADARNHAU COFNODION / CONFIRM MINUTES – 14.12.20</b></p> <p>Cytunwyd bod y cofnodion yn rhai cywir.</p> <p><i>It was agreed that this was a true record of the minutes.</i></p> <p>Cynnig/Proposed: Cyng/Cllr Gwilym Jenkins Eilio/Seconder: Cyng/Cllr Rhian Jones</p>	
8.	<p><b>MATERION YN CODI O'R COFNODION / MATTERS ARISING FROM MINUTES</b></p> <p>7.1 –</p> <p>Arwyddion wedi'i cynhyrchu a trafodwyd ble i'w rhoi o gwmpas y dre -</p> <p><i>Sings have been done and a discussion was held on where to put them around the town –</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Siop Nwyddau Caron Stores / CCF</li> <li>• Maesyrawel</li> <li>• Eglwys / Church</li> <li>• Mynwent / Churchyard</li> <li>• Maes Parcio / Car Park</li> <li>• Sgwar / Square</li> <li>• Penrodyn</li> <li>• Sgwar Fach</li> <li>• Rhewl Abergwesyn Road</li> <li>• Canolfan Hamdden / Leisure Centre</li> <li>• Blaencaron</li> </ul>	

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ysgol Henry Richard School</li> <li>• Brynheulog</li> <li>• Doldre</li> <li>• Pwllswyddog / Rhydyfawnog / Bryntirion</li> <li>• Heol yr Orsaf / Station Road</li> <li>• Heol Dewi Road</li> <li>• Stryd y Capel / Chapel Street</li> </ul> <p>Cyng Arwel Jones wedi edrych am brisiau biniau baw cwn gyda bagiau – dangoswyd i'r Cyng. Penderfynnwyd archebu 3 bin gwyrdd ac i'w leoli ar draws y dre – trafodwyd i'w lleoli ar y Sgwar / gwaelod y dref, top y dref a fyny ar bwys Ysgol Henry Richard – lleoliad terfynol i'w benderfynu pan maent yn cyrraedd.</p> <p><i>Cllr Arwel Jones looked for the prices of dog fouling bins with bags – shown to Cllrs. It was decided to order 3 green bins and to locate them across the town – it was discussed they should be located on the square / bottom of the town, the top of the town and up on the by Henry Richard School – a final location to be decided when they arrive.</i></p> <p>20.4 – <i>Mererid Jones – Adran Therapi Iaith a Lleferydd Pediatreg Ceredigion wedi gysylltu i ddweud bydd mewn cysylltiad gyda'r cam nesaf ynghlyn â rhoi byrddau cyfathrebu yn eu lle yn y Parc Chwarae. Mererid Jones - Ceredigion Paediatric Speech and Language Therapy Department has said she will be in touch with the next steps regarding the installation of the of the communication boards in the Playing Park.</i></p> <p>20.6 – Ciosg Penffordd – Un Llais Cymru wedi ateb a chynghori - Mae'n edrych yn debyg iawn i gytundeb cyfreithiol safonol ac o gofio bod BT wedi ymgymryd â llawer iawn o'r trosglwyddiadau hyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, byddent yn synnu'n fawr pe bai unrhyw faterion yn codi ohono. Er hynny, mae'n rhaid pwysleisio mai mater i'ch cyngor chi yw bod yn fodlon arno - ac os nad ydyw yna byddent yn ein cynghori i ofyn i gyfreithiwr ei wirio ar ein rhan. Trafodwyd a penderfynwyd arwyddo y contract.</p> <p><i>Penffordd Kiosk – One Voice Wales had replied and advised - It looks very much like a standard legal agreement and bearing in mind that BT have undertaken very many of these transfers in recent years they would be very surprised if any issues arise from it. They must stress though that it is entirely a matter for your council to be satisfied with it - and if not</i></p>	<p>Clerc / Clerk</p> <p>Clerc / Clerk</p> <p>Cadeirydd / Chair</p>
--	---	--

	<p><i>then they would advise that we ask a solicitor to check it for us.</i></p> <p><i>It was discussed and decided to sign the contract</i></p> <p>20.11 – Y Cyng Catherine Hughes wedi gofyn i Gyngor Sir Ceredigion am ganiatâd i ganiatáu i ni dorri clawdd yr hen Ysgol Gynradd. Cafwyd caniatad a gofynnodd y Clerc i Lloyd Lewis wneud y gwaith ond nid oedd gallu felly gofynnwyd i gwmni TTS. Llythyr o ddiolch i'w ddanfôn at TTS</p> <p><i>Cllr Catherine Hughes asked Ceredigion County Council for permission to allow us to cut the hedge of the old Primary School. Permission was granted and the Clerk asked Lloyd Lewis to do the work but he wasn't able to, so TTS was asked to do so. Thank you letter to be sent to TTS.</i></p>	Clerc / Clerk
9.	<p><b>CYFRIFON / FINANCIAL MATTERS</b></p> <p>8.1 Cyflog y Gweithiwr Strydlun/<i>Street Scene Worker Salary</i> £202.28</p> <p>8.2 Cyflog y Clerc / <i>Clerk's Salary</i> £211.20</p> <p>8.3 HMRC NIC/TAX Mis/<i>Month</i> 10 £103.40</p> <p>8.4 Llogi ystafell Clerc Mis Mehefin i Rhagfyr 2020 £192.50</p> <p>8.5 L&amp;G Forestry Ltd (Coed Nadolig) £336.00</p> <p>8.6 Elfed Jenkins (Web design/Hosting etc) £660.00</p> <p>8.7 Cyngor Sir Ceredigion (Digital Board) £2,867.00</p> <p>8.8 Siop Nwyddau Caron (Taleb Andrew Tyrrell) £20.00</p> <p>8.9 Jeff Jenkins (Addurniadau Nadolig 2020) £1350.00</p> <p>Cynnig/<i>Proposed</i>: Cyng/Cllr Rhydian Wilson Eilio/<i>Seconder</i>: Cyng/Cllr Catherine Hughes</p>	
10.	<p><b>ADRODDIAD Y GWEITHIWR STRYDLUN / STREET SCENE WORKER REPORT</b></p> <p>Dim byd newydd i adrodd – cario ymlaen fel yr arfer. <i>Nothing new to report – to carry on as usual.</i></p> <p>Mae llawer o sbwriel ar y ffyrdd sy'n arwain allan.</p> <p>Mae dail yn ymgynnull ar hyd ochr y ffordd yn Stryd y Capel- Clerc i siarad â'r Gweithiwr Strydlun i ofyn a fyddai'n ddefnyddiol pe bai ganddo'r offer priodol i gasglu dail.</p>	Clerc / Clerk

	<p><i>Roads leading out of the town has a lot of litter along the side of the road.</i></p> <p><i>Leaves are gathering along the side of the road in Chapel Street – Clerk to speak to the Street Scene Worker to ask if it would help if he had the appropriate equipment to collect leaves.</i></p>	
11.	<p><b>CEISIADAU CYNLLUNIO / PLANNING APPLICATIONS</b> Dim i'w gofnodi. <i>Nothing to report.</i></p>	
12.	<p><b>CANIATAD CYNLLUNIO / PLANNING PERMISSION</b> Dim i'w gofnodi. <i>Nothing to report.</i></p>	
13.	<p><b>CYNGOR SIR CEREDIGION / CEREDIGION COUNTY COUNCIL</b> Dim i'w gofnodi. <i>Nothing to report.</i></p>	
14.	<p><b>UN LLAIS CYMRU / ONE VOICE WALES</b> Dim i'w gofnodi. <i>Nothing to report.</i></p>	
15.	<p><b>PROSIECT CYLCH CARON PROJECT</b> Dim i'w gofnodi. <i>Nothing to report.</i></p>	
16.	<p><b>EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU</b></p> <p>Cyhoeddwyd bod yr Eisteddfod wedi'i symud i 2022. Fel Cyngor mae angen cynllun ar gyfer y flwyddyn nesaf trwy roi rhai pethau ar waith eleni. Gofynnodd y Cadeirydd i'r holl Gynghorwyr am syniadau a sut y gellir eu gweithredu eleni i baratoi ar gyfer y flwyddyn nesaf pan fydd yr Eisteddfod yn cael ei chynnal yn y dref. Y Cyng Catherine Hughes i gysylltu â John Hadlow, Cyngor Sir Ceredigion i drafod potiau blodau a blodau ar gyfer y dref.</p> <p><i>It has been announced that the Eisteddfod has been moved to 2022.</i> <i>As a Council we need plan for next year by putting some things in place this year. The Chair asked all Councillors for ideas and how they can be implemented this year in preparation for next year when the Eisteddfod will be held in the town.</i> <i>Cllr Catherine Hughes to contact John Hadlow, Ceredigion County Council to discuss flower pots and flowers for the town.</i></p>	<p>Cyng i gyd / All Cllrs</p> <p>Cyng / Cllr Catherine Hughes</p>
17.	<p><b>PROSIECT BWRDD DIGIDOL / DIGITAL BOARD PROJECT</b> Cyng Arwel Jones wedi gofyn i Jeff Jenkins gysylltu y bwrdd a bydd yn gwneud dros yr wythnos nesaf.</p>	

	<p>Roedd y Clerc wedi gwirio gyda'r cwmni yswiriant ac mae atebolrwydd wedi'i gwmpasu ond bydd angen yswiriant ychwanegol i dalu am ddifrod – y gost am hyn bydd £65 ychwanegol y flwyddyn. Cytunodd pawb y dylid ychwanegu hyn at yr yswiriant blynyddol.</p> <p>Y Cyng Arwel Jones wedi ffeindio diheintydd i'w rhoi wrth ymyl y Bwrdd Digidol - dangoswyd hyn i'r Cyng. Y Clerc i archebu.</p> <p><i>Cllr Arwel Jones has asked Jeff Jenkins to connect the board and will do so next week.</i></p> <p><i>The Clerk had checked with the insurance company and liability has been covered but additional insurance will be required to cover damage - the cost of which will be an additional £65 per annum. All agreed that this to be added to the annual insurance cover.</i></p> <p><i>Cllr Arwel Jones has found a hand sanitizer for the Digital Board - this was shown to the Cllrs. Clerk to order.</i></p>	<p>Cyng / Cllr Arwel Jones</p> <p>Clerc / Clerk</p>
18.	<p><b>GOHEBIAETH / CORRESPONDENCE</b></p> <p>Cais am gymorth ariannol wedi'i dderbyn o CRUISE Gofal Mewn Galar - i'w gadw ar ffeil tan fyddant yn cael eu trafod nes ymlaen eleni.</p> <p><i>Request for financial assistance received from CRUISE Bereavement Care – keep on file until they are discussed later this year.</i></p>	
19.	<p><b>UNRHYW FATER ARALL / ANY OTHER BUSINESS</b></p> <p>20.1 – Adnewyddu yswiriant ar gyfer 2021-2022</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Premiwm 5 mlynedd o £1277.81</li> <li>○ Premiwm 3 blynedd o £1344.14</li> <li>○ Premiwm safonol blwyddyn o £1410.46</li> </ul> <p>Cost i dalu am ddifrod l'r Bwrdd Digidol bydd £65 ychwanegol y flwyddyn.</p> <p><i>Insurance renewal for 2021-2022</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ <i>A 5-year LTA premium of £1277.81</i></li> <li>○ <i>A 3-year LTA premium of £1344.14</i></li> <li>○ <i>A 1-year standard premium of £1410.46</i></li> </ul> <p><i>The cost to pay for the Digital Board damage will be an additional £65 per year.</i></p> <p>Cytunwyd i ddewis aros gyda Zurich.</p> <p><i>It was agreed to opt to stay with Zurich.</i></p> <p>Cynnig/Proposed: Cyng/Cllr Catherine Hughes</p>	<p>Clerc / Clerk</p>

<p>Eilio/<i>Seconder</i>: Cyng/<i>Cllr</i> Rhian Jones</p> <p>Trafodwyd a chytunwyd i fynd am y premiwm 5 mlynedd.</p> <p><i>It was discussed and agreed to go for the 5 year LTA premium.</i></p> <p>Cynnig/<i>Proposed</i>: Cyng/<i>Cllr</i> Owian Pugh Eilio/<i>Seconder</i>: Cyng/<i>Cllr</i> Ann Jones</p> <p>20.2 – Canolfan Deulu Tregaron</p> <p>Clerc wedi derbyn llythyr wrth Ganolfan Deulu Tregaron.</p> <p>Fel y gwyddoch, nid oes gan y Ganolfan ardd na lle y tu allan, felly maent yn gofyn am ganiatâd i gynnal sesiynau ym Maes Chwarae / Parc y Dref gan maent methu cwrdd tu fewn ar hyn o bryd.</p> <p>Hefyd, maent yn cynllunio ar bartneriaeth gyda Chysylltu â Charedigrwydd Ceredigion mewn prosiect plannu ar gyfer y gymuned. Byddant yn prynu a dosbarthu setiau offer garddio ar gyfer y teuluoedd, fel y gallant ymuno â'r prosiect. Roedden hefyd eisiau gofyn a oedd unrhyw le y gallent ddefnyddio i gael ychydig o ardal dyfu? Byddai gardd gymunedol fach, neu flychau plannu yn ddelfrydol! Maent yn gobeithio adeiladu blychau silff ffenestri yn y Ganolfan, a fyddai'n hyfryd i'r Gymuned, ac a fyddai'n edrych yn llachar ac yn lliwgar ar y Sgwâr.</p> <p>Pawb yn gytûn iddynt ddefnyddio'r Parc Chwarae ond mae rhaid iddynt ddilyn y rheolau a darparu copi o'i asesiad risg.</p> <p>Cyng. Catherine Hughes i gysylltu â Chyngor Sir Ceredigion ynglŷn â les y darn gwyrdd wrth ymyl y Clwb Bowlio (ardal yr hen 'Pitch &amp; Put') I weld a ydy yn opsiwn i'r Ganolfan Deulu.</p> <p>Cyng. Rhydian Wilson i gysylltu â Angie Polkie i weld a ydy gallu cyd-weithio gyda'r Ganolfan Deulu i ddatblygu'r prosiect.</p> <p><i>Tregaron Family Centre</i></p> <p><i>Clerk has received a letter from Tregaron Family Centre.</i></p> <p><i>The Centre has no garden or outside space, so we would like to ask for permission to hold some sessions in the Town Playground/ Park as they can't currently meet indoors.</i></p> <p><i>Also they are planning on a partnership with Connect to Kindness Ceredigion in a planting project for the community. They will be purchasing and distributing gardening tool sets for the families, so that they can join in with the project. They also wanted to ask whether there was a space anywhere that they could use to have a little growing area. A small community garden, or planting boxes would be ideal! They are hoping to</i></p>	<p>Clerc / <i>Clerk</i></p> <p>Cyng / <i>Cllr</i> Catherine Hughes</p> <p>Cyng / <i>Cllr</i> Rhydian Wilson</p>
---	---



*build windowsill boxes at the Centre, which would be lovely for the Community, and would look bright and colourful on the Square.*

*Everyone in agreement that they can use the Playground but they must follow the rules and provide a copy of their risk assessment. Clerk to contact and ask for this.*

*Cllr. Catherine Hughes to contact Ceredigion County Council regarding the lease of the green area next to the Bowling Club (former 'Pitch & Put' area) to see if it is an option for the Family Centre.*

*Cllr. Rhydian Wilson to contact Angie Polkie to see if she can work with the Family Centre to develop the project.*

20.3 –

Deio Jones – Resources for Change

*Mae “Grwp Prosiect Newid Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol” Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion wedi penodi “Resources for Change” i adnabod darnau o dir cyhoeddus y gellir eu hagor i’r cyhoedd er mwyn gwella mynediad, hybu gwaith gwirfoddol, a hyrwyddo gweithgareddau iechyd a lles. Ardaloedd y gellir hefyd eu rheoli a’i gwella er mwyn hybu natur a bioamrywiaeth. Ar hyn o bryd maen’t yn paratoi rhestr hir a rhestr fer o safleoedd posibl gyda’r bwriad o hwyluso datblygiad yn y dyfodol, yn ddibynnol ar gyllid, cynllunio a chaniatâd eraill, ac wrth gwrs unrhyw ymgynghoriaeth bellach.*

*Maent wedi cysylltu â'r Cyngor i gyflwyno eu hunain a'r gwaith y maent yn ei wneud. Contract byr yw hwn, a bydd wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth.*

*Cynhaliwyd trafodaeth ac mae yna feysydd sydd gan y Cynghorwyr mewn golwg - Clerc i gysylltu â Deio.*

*The Ceredigion Public Services Board’s “Climate Change & Natural Resources Project Group” has appointed “Resources for Change” to identify publicly owned land which could be opened to public access, volunteering and wellbeing activities and managed, improved and enhanced to promote nature and biodiversity. A long and short list of potential sites is currently being developed with a view to further progressing their development in the future subject to funding, planning, other permissions/permits and of course further consultation.*

*They have contacted the Council to introduce themselves and the work they are doing. This is a short contract, which will be completed by the end of March.*

*A discussion was held and there are areas that Cllrs have in mind – Clerk to contact Deio.*

Clerc /  
Clerk

	<p>20.4 – Ebost wrth Gwen Clements, Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn gofyn am rhestr o gyfarfodydd y Cyngor Tref dros y misoedd nesaf – Clerk i ddanfôn ymlaen.</p> <p><i>Email from Gwen Clements, Hywel Dda Health Board requesting a list of the Town Council meetings over the coming months - Clerk to forward.</i></p> <p>20.5 – Cerflun Henry Richard – ebost wrth Kieran Elliott yn awgrymu y gwaith o'i gynnal a chadw tan y flwyddyn nesaf – Clerk i gysylltu i ofyn beth mae'n awgrymu am wneud y gwaith.</p> <p><i>Henry Richard Statue - email from Kieran Elliott suggesting to leave the maintenance work until next year – Clerk to make contact to ask what he suggests to do regarding the work.</i></p> <p>20.6 – Os bydd unrhyw un yn gweld unrhyw broblem gyda'r priffyrdd neu palmantau, cerbydau wedi eu adael, graffiti, hawliau ffordd, sŵn gan gymdogion, problemau defnyddwyr ayyb .fedrwrch adrodd problemau ar-lein neu drwy ffonio CLIC, Cyngor Sir Ceredigion - 01545 570881 / <a href="mailto:clic@ceredigion.gov.uk">clic@ceredigion.gov.uk</a></p> <p><i>If anyone sees any problems with highways or pavements, abandoned vehicles, graffiti, problems with roads or footpaths, rights of way, noise from neighbours, consumer problems etc. please report problems online or by calling CLIC, Ceredigion County Council - 01545 570881 / <a href="mailto:clic@ceredigion.gov.uk">clic@ceredigion.gov.uk</a></i></p> <p>20.7 –</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyng/Cllr Rhydian Wilson – <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Costau Taith Santa yn mis Rhagfyr – danfon at y Clerk <i>Costs for the Santa Tour in December - send to Clerk</i></li> <li>○ Tu allan i Pendre a Milwyn House, Pentre mae yna ddau bant yn y ffordd lle mae dwr yn croni ac yn achosi problemau i dai ar y stryd – Cyng Rhydian Wilson a'r Clerk i gysylltu a CLIC. <i>Outside Pendre and Milwyn House, Pentre, there are two dips where water collects and causes problems to house on the street - Cllr Rhydian Wilson and the Clerk to contact CLIC.</i></li> </ul> </li> </ul>	<p>Clerc / Clerk</p> <p>Clerc / Clerk</p> <p>Cyng i gyd</p> <p>All Cllrs</p> <p>Clerc / Clerk</p> <p>Cyng / Cllr Rhydian Wilson</p>
	Terfynwyd y cyfarfod / Meeting was closed	